Beth i'w wneud os yw eich plentyn yn dangos symptomau coronafeirws (COVID-19)

Un neu fwy o symptomau COVID-19:

- Peswch newydd, parhaol
- Tymheredd uchel
- Colli, neu newid, ymdeimlad arferol o flas neu arogl

Rhestr weithred

1. Hunan-ynysu am 10 diwrnod
2. Defnyddio https://111.cymru.gig.uk/ neu alw 111 i gael cyngor clinigol
3. Gwneud cais am brawf coronafeirws os oes angen https://llyw.cymru/gwneud-cais-i-gael-prawf-coronafeirws-covid-19 neu alw 119 i drefnu prawf.
4. Casglu unrhyw frodyr a chwiorydd o'r ysgol.
5. Ffonio'r ysgol i ddweud bod gan eich plentyn symptomau ac a gafodd brawf neu beidio. Peidio ag ymweld â'r ysgol.
6. Os yw prawf eich plentyn yn negyddol, dychwelyd i'r ysgol gyda thystiolaeth o'r canlyniad.
7. Os yw prawf eich plentyn yn gadarnhaol, dal i hunan-ynysu am 10 diwrnod o'r adeg pan ddechreuodd y symptomau. Rhaid i bawb sy'n byw gyda'r plentyn, a phawb yn y swigen deulu neu swigen deulu estynedig, hunan-ynysu am 14 diwrnod.
8. Os yw eich plentyn heb unrhyw symptomau COVID-19 ond:

   yn teimlo'n dost gyda thymheredd o lai na 38C
   yn chwydu neu â dolur rhydd
   yn colli chwant bwyd
   â brech
   â blinder / poenau
   neu unrhyw salwch cyffredinol arall neu'n teimlo'n dost

   y cyngor yw cadw golwg agos ar eich plentyn ac, os yw hynny'n briodol, cadw'r plentyn o'r ysgol ond hysbysu'r ysgol yn y ffordd arferol.
9. Os yw eich plentyn yn ymddangos yn wael iawn, yn gwaethygu neu os ydych yn teimlo bod rhywbeth difrifol o'i le, ffoniwch 999. Peidiwch ag ymweld â'ch meddyg teulu, fferyllfa neu ysbyty, heblaw mewn argyfwng.